CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **NOS LUN 13eg o FEHEFIN 2022** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau a'r Cynghorydd Sir newydd eu hethol, i'r Cyfarfod

YN BRESENNOL :
Cyng. Non W. Parry - Cadeirydd

Cyng. John Lee – Dirprwy Faer
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Henry D. Jones
Cyng. T. Victor Hughes
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Margaret Thomas
Cyng. Gwenan Ll. Evans.

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Dylan W. Rees
Paul Ellis
Geraint Bebb.
Clerc : H. Rhys Parry
Cymhorthydd : Ms.Linda Powell

Cyfarfod yn cael ei Recordio

22/019 Ymddiheuriadau

Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. Christine Roberts
Cynghorydd Sir : Cyng. Non Dafydd
Cyng. Terry Jones
Cyng. Eleri Ll. Burns
Cyng. Nicola Roberts

22/020 Datganiad o Ddiddordeb : Dim
Cadeirydd yn darllen Datganiad yn ymwneud a Dathlu Jiwbilî'r Frenhines ar 2ai o Fehefin 2022 ac yn esbonio'r dilyniant o ddigwyddiadau. **Derbyn.**

22/021 Heddlu Gogledd Cymru – Dim Cynrychiolydd
Cadeirydd yn adrodd fod y Swyddfa wedi cysylltu gyda'r PCSO's yn gofyn iddynt edrych ar ffilmiau'r Camerâu CCTV, oherwydd bod blodau wedi eu dwyn o'r Potiau yn y dref dros y penwythnos.
Cyng. J. Egryn Lewis yn adrodd fod eisiau tynnu sylw diffyg presenoldeb y PCSO's yng Nghyfarfodydd y Cyngor Tref, trwy ysgrifennu at Is-swyddogion yr Heddlu. **Derbyn.**

22/022 Seddi Gwag – Ward Tudur
Clerc yn adrodd fod tri Cais wedi ei dderbyn ar gyfer y 3 Sedd Wag ar Ward Tudur, fel a ganlyn: Cyn-gynghorydd Richard Parry, Cyn-gynghorydd J. Huw Owen a Mrs Hefina Roberts. Clerc yn cyflwyno braslun o'r Ymgeisydd. Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig cyfethol y tri ymgeisydd uchod, Cyng. Henry D. Jones yn Eilio'r cynnig.

PARHAD 22/022

PENDERFYNWYD cyfethol Richard Parry, J. Huw Owen a Mrs Hefina Roberts, fel Cynghorwyr ar Ward Tudur. Bydd y Swyddfa yn ysgrifennu yn swyddogol at yr Ymgeisydd i roi gwybod iddynt.

22/023 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 14.03.2022

Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod. Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa yn tynnu sylw at Eitem 21/188 - Adroddiad Cyngor Sir Ynys Môn, pwynt bwled 3 : Cyng. Dylan Rees yn esbonio'r frawddeg. Clerc yn adrodd bydd geirfa pwynt 3 uchod yn cael ei gywiro.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Gwenan Ll. Evans yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion a'i arwyddo gan y Cadeirydd.

22/024 I Ystyried Materion yn codi o Gofnodion 14.03.2022

Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu trwy'r Swyddfa o flaen llaw, i arbed amser yn ystod y Cyfarfod.
Clerc yn datgan fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld a'r Swyddfa ynglŷn â :

1 Tudalen 2 - Eitem 21/181 - Dathlu Jiwbilî'r Frenhines. Cyng. Lewis yn derbyn eglurhad y Cadeirydd.

22/025 Cynllunio

I Dderbyn Cofnodion Is-bwyllgor Cynllunio 04.04.2022, 25.04.2022 a 17.05.2022.

Cyng. J. Egryn Lewis yn adrodd fod angen gwella'r drefn o brosesu'r Ymgynghoriadau Cynllunio, a dylid bob Aelod gael y wybodaeth er mwyn rhoi sylwadau ar y Ceisiadau. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i drafod yr uchod yn ystod Cyfarfod Is-bwyllgor Cynllunio (trwy Gyfrwng TEAMS) ar 17eg o Fehefin 2022, ac adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn nesaf, ynghyd ac ystyried cynnal cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor wyneb yn wyneb,
PENDERFYNWYD derbyn Cofnodion Cyfarfodydd 04.04.2022, 25.04.2022 a 17.05.2022.

22/026 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebion y Maer

1 **Cyngerdd yng Nghapel Moreia - Y Wcráin - 27.03.2022 -** Y Maer Ymadawol, Cyng. Margaret Thomas wedi mwynhau'r Cyngerdd gyda'r cyfraniadau yn mynd at achos da.

2 **Clwb Pêl Droed Tournament 21.05.2022 - Agoriad Swyddogol**
Maer y Dref, Cyng. Non Parry wedi mwynhau'r Gystadleuaeth uchod ac wedi cyflwyno'r Tlysau.

3 **Clwb Pêl Droed - Cyfarfod Blynyddol 08.06.2022 -** Maer y Dref yn bresennol yn y Cyfarfod ac yn adrodd yn ôl, fel a ganlyn :

- Aelodau Pwyllgor Clwb Pêl Droed yn hapus a positif iawn efo sut mae pethau yn symud ymlaen;
- Edrych am Gyfarwyddwyr Newydd;
- Defnyddio'r Tŷ Clwb fel Hwb Cymunedol;
- Chwilio am Wirfoddolwyr.

22/027 Materion yn Codi gan Aelodau

Cyng. Margaret Thomas : Polisi Cymdeithasol Cyfryngol y Cyngor Tref

Cyng. Thomas yn dilyn o'r Datganiad ynglŷn â'r Jiwbilî, fod dim o fusnes y Cyngor Tref i'w drafod ar Dudalen Facebook, unrhyw gyfathrebiad/cwyn/ ymholiad i ddod trwy'r Swyddfa. I gefnogi hyn, dosbarthwyd y Polisi uchod i'r Aelodau i'w atgoffo o'r Rheolau. Bydd copi o'r Polisi yn cael ei rannu hefyd gyda'r Aelodau oedd yn absennol heno. Dim Trafodaeth - **Derbyn.**

22/28 Adroddiad y Clerc

Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Tir Penlan :**

Cyfarfod 04.07.2022 - Cyfarfod gyda'r Asiant ac Aelodau'r Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae i drafod y sefyllfa ddiweddaraf ac adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn.
Cyng. Victor Hughes yn adrodd ei fod wedi cyfathrebu gyda'r Asiant ynglŷn â'r sefyllfa ac wedi trafod y gofynion wrth law ar gyfer y Cyfarfod 4ydd o Orffennaf. Cyng. Hughes yn pwysleisio bod rhaid symud ymlaen yn gyflym i ddatblygu'r Fynwent Newydd, wrth ystyried hefyd bod llawer o faterion i'w datrys cyn cario allan y profion tir pellach. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gyda'r uchod a bydd rhaid gwneud **penderfyniadau** yn ystod y Cyfarfod uchod. Cyng. Margaret Thomas yn cynnig gwahodd Cwmni Cemetery Solutions i roi mewnbwn pellach.

Cytundeb Gosod Tir ar gyfer Torri Gwair - Cytundeb wedi ei arwyddo am y cyfnod 1af o Fai 2022 hyd at 30ain o Fedi 2022. Cyng. Arwel Môn Hughes yn holi am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Cytundeb, Clerc yn ymateb fod y camau cywir wedi eu dilyn.

2 Diweddariad ar y Canlynol :

(a) Trosglwyddo Safle'r Orsedd - Cytundeb Terfynol wedi ei harwyddo a'r trosglwyddiad wedi ei gwblhau. Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw at y gordyfiant ac ysbwriel o gwmpas y cae. Clerc yn ymateb bydd y gwaith yma yn derbyn sylw.
Cyng. Victor Hughes yn datgan, yn ei farn o, dylid y Cyngor Tref bwyso ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i roi'r tir yn barhaol fel Ased i'r Cyngor yma ac nid i ni ei warchod am 10 mlynedd. Cyng. Hughes yn Cynnig fod y Cytundeb yn cael ei ystyried yn unol â'r uchod, Cyng. John Lee yn Eilio'r cynnig**. Ni wnaed unrhyw benderfyniad ar hyn.**

(b) Trosglwyddo Cae Criced - Sefyllfa ddim wedi newid. Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod Cyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr wedi ymgynghori gyda'r Bargyfreithiwr a bod anfoneb o £1,000 i'w dalu am ei gyngor. Cyng. Thomas yn awgrymu talu'r Anfoneb uchod a chyfnewid am Adroddiad y Bargyfreithiwr. Dim trafodaeth bellach.

3 Cyngor Sir Ynys Môn - Teithio Llesol - Gwaith ar hyd llwybr Lôn Las Cefni wedi cychwyn. gyda chynlluniau o fewn y prosiect i edrych ar dacluso'r llwybr cyhoeddus ar ymylon Safle'r Orsedd. Clerc yn gofyn am farn yr Aelodau i gael Agoriad Swyddogol i Safle'r Orsedd a'i gyflwyno yn y Papur Bro a.y.b. pan fydd y gwaith tacluso wedi eu cwblhau, **PENDERFYNWYD** ystyried hyn ar y cyd gyda Cyngor Sir Ynys Môn a thrafod ymhellach yn y Cyfarfod Llawn nesaf.

4 Y Llys – Llogi Ystafelloedd – Wedi derbyn dipyn o ymholiadau yn ddiweddar. Virginia Crosbie A.S. wedi llogi Ystafell ar gyfer 17eg o Fehefin 2022. Mudiadau eraill wedi holi ynglŷn a chostau llogi ac argaeledd. Cyng. J. Egryn Lewis yn holi ynglŷn â chanllawiau taliadau llogi/rhent. Clerc yn ymateb fod Cwmni Gwerthwyr Tai lleol wedi ymweld â'r adeilad i roi cyngor ar hyn ac mae'r Swyddfa yn disgwyl diweddariad ganddynt ac awgrymiad derbyn taliadau Llog/rhent, fesul ystafell.
Cyng. Victor Hughes yn awgrymu dylid ystyried apwyntio Is-bwyllgor i fod yn gyfrifol am osod Ystafelloedd y Llys. Rhai Aelodau yn anfodlon fod gwybodaeth ddim yn cael eu rhannu ynglŷn

PARHAD 22/028

a'r uchod.
Clerc yn atgoffa'r Aelodau fod yn gytundeb fel rhan o'r Cynllun Busnes, wrth brynu'r adeilad, i osod yr Ystafelloedd, a bydd yn edrych i mewn ar sut i reoli llogi'r Ystafelloedd i'r dyfodol.

5 **Digwyddiad Nadolig – 02.12.2022** - Noson troi'r Goleuadau Nadolig ymlaen/Adloniant . Arolwg Safle wedi ei wneud gan Gwmni Golau Arbenigol i edrych ar gyflwr y goleuadau Nadolig ar draws y Stryd Fawr. Wedi derbyn cyngor fod y goleuadau yn hen erbyn hyn, rhai wedi dirywio ac angen eu datgymalu. Clerc yn datgan fod y gwaith yma yn gostus a bydd y costau yn cael eu trafod yng Nghyfarfod yr Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol, Nos Lun 27ain o Fehefin 2022.
Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau buasai Grŵp Gweithgor yn gallu gweithio ar y cyd gyda'r Cyngor Tref i drefnu Digwyddiadau ar gyfer y noson uchod. **Derbyn.**
Cyng. J. Egryn Lewis yn awyddus i dderbyn y Gwaith gweithredu yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, sef, Dyddiadau Cyfarfodydd 2022-23; Cyfansoddiad i'r Is-bwyllgorau; Aelodaeth Is-bwyllgorau. Clerc yn ymateb fod y wybodaeth yma yn y broses o gael ei ddarparu i'w gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn nesaf. **Derbyn.**

7.30y.h. Cynghorydd Sir Dylan W. Rees yn gadael y Cyfarfod.

22/029 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol

1 **Grŵp Llandrillo Menai** - 05.04.2022 - Dim Cynrychiolydd;

2 **Un Llais Cymru - Hyfforddiant - Modiwl 3** - "The Council as an Employer" :06.04.2022 Cadeirydd a Cyng. Margaret Thomas wedi mynychu'r uchod. Hyfforddiant yn ddiddorol ac yn atgoffa'r Aelodau o'r pwysigrwydd i fynychu'r Cyrsiau, unai Ar-lein neu trwy gyfarfod wyneb yn wyneb. Gwybodaeth rheolaeth yn cael ei anfon ymlaen gan Un Llais Cymru ynglyn a Hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr.

3 **Cyfarfod Adfywio Llangefni - Menter Môn (Wi-Fi) -** 26.04.2022 : Cyng. Margaret Thomas yn rhoi adborth fod Holiadur yn cael ei gylchredeg yn ymwneud a'r Wi-Fi. Adfywio canol y dref wedi ei drafod gyda syniadau o newid defnydd siopau gwag i lefydd i bobl fyw.

4 **Un Llais Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn -** 12.05.2022 : Dim Trafodaeth.

5 **Cyfarfod Adfywio Llangefni -** 07.06.2022 : Cyng. Egryn Lewis yn tynnu sylw fod dim gwahoddiad wedi ei dderbyn trwy'r Swyddfa i'r Cyfarfod yma. Cadeirydd yn adrodd ei bod wedi mynychu cyfarfod yn y gorffennol ac yn awyddus i ethol dau Gynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar y Grŵp Adfywio. Cyng. Victor Hughes yn awgrymu ysgrifennu at Mr. Ieuan Wyn Jones, Arweinydd y Grŵp, ar y pwynt yma. **Derbyn.**

22/030 Cyllid

1 **I Dderbyn Mantolen Mawrth, Ebrill a Mai 2022**
Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Mantolau Ariannol uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod.
Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa yn gofyn am eglurhad o Eitemau ar y Mantolau Ariannol, fel a ganlyn :
Taliadau HMRC – 19.04.2022 & 27.04.2022 – Addasiad o Fantolen Ariannol Mis Mawrth;
Taliad P410 – 29.03.2022 – Cyflogaeth £875.03;
Taliad P 59 - 20.05.2022 – Leonard Ellis (Pickup) (Cyng. Lewis wedi cael golwg ar yr Anfoneb);
Taliad P 63 - 24.05.2022 – Van Demon – Gorchuddion Seddi i'r Cerbyd Gwaith;
Yn dilyn yr uchod, Clerc yn adrodd fod Ffeil yr Anfonebau ar gael yn y Swyddfa i unrhyw Aelod i'w archwilio.
Clerc yn esbonio fod trosglwyddiad mewnol o £7,000 wedi ei wneud o Gyfrif 60206679 dros gyfnod byr.

PARHAD 22/030

Cyng. J. Egryn Lewis yn holi ynglyn a'r Ford Transit, cyn cerbyd y Cyngor Tref. Clerc yn esbonio fod y Cerbyd erbyn hyn wedi ei werthu am £500 fel scrap. Cyng. Lewis yn anfodlon fod hyn wedi digwydd heb benderfyniad agored. Clerc yn rhedeg trwy'r digwyddiadau yn arwain at y gwerthiant ac wedi cymryd y cyfrifoldeb am y gwerthiant. Dim trafodaeth bellach. Yn dilyn yr uchod, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig i dderbyn y Mantolau Ariannol a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mawrth, Ebrill a Mai 2022.

2 **Adnewyddu'r Yswiriant 2022-2023 -** Clerc yn adrodd fod Yswiriant eleni wedi ei adnewyddu gyda Chwmni Came and Company a bod cynnydd o £700 ers llynedd i'r Cyfanswm.

22/031 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn

Oherwydd bod Cyng. Dylan W. Rees wedi gadael y Cyfarfod, Cadeirydd yn darllen Datganiad Misol Cyng. Rees, fel a ganlyn :

1 Dim byd mawr yn digwydd yn y Cyngor Sir ar hyn o bryd gan fod y ffocws ar gynnal sesiynau anwytho i'r Cynghorwyr Newydd. Yn yr wythnosau diwethaf dwi wedi :

- Mynychu Cyfarfod Cychwynnol Prosiect Adnewyddu Melin y Graig wedi hwyluso gan Menter Môn ar ran MENCAP;
- Helpu allan gyda diwrnod glanhau ar Ystâd Pencraig;
- Mynychu Cyfarfod o Grŵp Adfywio Llangefni;
- Mynychu Cyfarfod AGM Clwb Pêl droed Llangefni;
- Ymweld â Rali Ffermwyr Ifanc ar Mona a Gŵyl Cefni.

O.N. Mi fydd Cyfeiriadau E-bost Cynghorwyr Sir yn newid yfory efo'r domain @ynysmon.llyw.cymru ac ynysmon.gov.wales er fydd yr hen gyfeiriadau dal i weithio.
Cyng. J. Egryn Lewis yn diolch fod Prosiect Melin y Graig yn cychwyn, a bydd gwaith yn cael eu wneud i ardal uchaf cae Safle'r Orsedd. Cyng. Lewis yn ychwanegu fod y rhan uchaf o'r cae yn berygl ac yn awgrymu cael gosod rheiliau llaw fel rhan o'r Prosiect a gofyn i'r Cyngor Sir greu llwybr hwylus i'r anabl. **Derbyn.**

22/032 Gohebiaeth a Materion Newydd

Gohebiaeth/Correspondence

1 **Cydlynydd Parc Ffrindiau Nant y Pandy :** E-bost 14.04.2022 - Aelodau wedi trafod cynnwys yr e-bost a syniadau'r Grwp uchod, sef, i wneud popeth yn wyrddach, yn fwy caredig i natur, addysg a gwelliant i'r amgylchedd, o fewn y Parc a mannau eraill. Yn dilyn trafodaeth, dim gwrthwynebiad gan yr Aelodau mewn egwyddor i'r Prosiect a gofyn am fanylion eu cynlluniau cyn dod i unrhyw benderfyniad. **PENDERFYNWYD** disgwyl derbyn mwy o fanylion cyn symud ymlaen.

2 **Cyngor Sir Ynys Môn - Adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn Ar Gofrestrau Diddordebau Cynghorau Tref a Chymuned :** E-bost 05.04.2022 - Cadeirydd yn gofyn i'r Aelodau ddarllen a chymryd sylw o gynnwys yr uchod ac yn annog pawb i fynychu Sesiynau Hyfforddiant fel rhan o'i swydd yn Gynghorydd. Dim Trafodaeth bellach. **Derbyn.**

3 **Cyfraniadau 2021-2022 :** Cadeirydd yn adrodd fod llythyrau o ddiolch wedi eu derbyn gan Fudiadau yn dilyn derbyn Cyfraniad. Cadeirydd yn nodi fod Cyng. Christine Roberts wedi diolch, ar ran Pwyllgor Gŵyl Cefni, am y Cyfraniad tuag at yr Ŵyl lwyddiannus iawn eleni.

22/033 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth

Materion wedi eu hanfon trwy E-bost yn ystod Misoedd Mawrth, Ebrill a Mai

1 **Un Llais Cymru : Derbyn**
2 **Materion Eraill : Derbyn**

22/034 Unrhyw Fater Brys Gan y Maer

1 **Organ :** Cadeirydd yn diolch yn fawr iawn am y Rhodd o'r Organ Yamaha, gan y diweddar Mrs E. Parry, sef Mam Mr. Rhys Parry, Clerc, i'w defnyddio yng Nghapel y Fynwent, Lon Newydd, Llangefni.

2 **Cyflwr y Dref :** Cyng. Victor Hughes yn tynnu sylw fod Strydoedd y dref yn dirywio, chwyn yn tyfu yn bob man a'r rhai o'r palmentydd gyda thyfiant gwyrdd llithrig. Cyng. Victor Hughes yn datgan for angen anfon llythyr o gŵyn at Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn tynnu hyn i'w sylw. Cynghorydd Sir, Geraint Bedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau y bydd yn mynd a'r cwynion uchod yn ol i'r Cyngor Sir. Cyng. Margaret Thomas yn ychwanegu bod canmoliaeth fawr i'r unigolyn sydd yn gweithio ar ran "Biffa" am ei gwaith ardderchog o dacluso ysbwriel a.y.b. o gwmpas y dref. **Derbyn**

3 **Llwybr Ger Ochor yr Afon :** Cyng. Victor Hughes yn datgan fod y llwybr yma angen ei lanhau gyda "Pressure Washer", a buasai yn fodlon gadael i'r Cyngor Tref gael defnydd o'r peiriant ar gyfer y gwaith yma. Cyng. Hughes yn tynnu sylw hefyd, fod y Meinciau yn yr ardal yma angen eu trwsio. Clerc yn ymateb fod y Tirmon ar gael wythnos yma i atgyweirio'r Meinciau ac edrych ar y gwaith glanhau. **Derbyn**

22/035 Dyddiad y cyfarfod nesaf

1 Cyfarfod Llawn Nos Lun 11eg o Orffennaf 2022.

Nodwch, os gwelwch yn dda, oherwydd gwyliau Staff yn ystod Mis Awst, bydd oriau agor y Swyddfa yn hyblyg fel bo'r angen.

Arwyddwyd gan ***CYNG. NON W. PARRY***

.....

Cadeirydd